RHAN 3

GWYBODAETH ARIANNOL AMDANOCH CHI A'CH TEULU

Sylwer: dylai ***Rhan 3*** *ar wahân gael ei llenwi ar gyfer pob un o'r personau canlynol:*

(1) *Ceisiadau am grant atgyweirio a grant rhannau cyffredin*

(a) y ceisydd, neu bob un o'r ceiswyr, ***a***

(b) unrhyw berson nad yw'n geisydd ond sydd â hawl i wneud y cais ac sy'n byw neu'n bwriadu byw yn yr annedd neu, fel y bo'n wir, mewn fflat yn yr adeilad.

(2) *Ceisiadau am grant cyfleusterau i'r anabl* **Nodyn 47A**

(a) unrhyw ddeiliad anabl ar yr annedd nad yw'n blentyn neu'n berson ifanc y mae person perthnasol yn gyfrifol amdanynt fel a ddisgrifir ym mharagraff (c) isod; ***a***

(b) priod neu bartner unrhyw ddeiliad anabl ar yr annedd (ac eithrio lle bo'r priod neu'r partner yn blentyn neu'n berson ifanc y mae person perthnasol yn gyfrifol amdanynt yn rhinwedd rheoliad 8 o'r Rheoliadau Grantiau Adnewydd Tai 1996 (O.S. 1996/2890)); ***ac***

(c) lle bo deiliad anabl neu unrhyw un o ddeiliaid anabl yr annedd yn blentyn neu'n berson ifanc, unrhyw berson sy'n gyfrifol amdanynt o fewn ystyr rheoliad 8 o'r Rheoliadau Grantiau Adnewyddu Tai 1996.

3.1 A ydych chi, eich partner a phawb arall (a'u partneriaid) yr ydych wedi'u crybwyll uchod fel rhai sy'n preswylio (neu'n bwriadu preswylio) yn yr annedd neu'n meddu ar fuddiant perchennog yn yr annedd (neu'n bwriadu ei sicrhau) neu fel rhai sy'n meddu ar denantiaeth gymwys ar yr annedd, oll â hawl i dderbyn, ac yn derbyn, cymhorthdal incwm neu lwfans chwilio am waith sy'n seiliedig ar incwm? **Nodiadau 48 a 49**

Ydym ☐

Nac ydym ☐

3.1A Os nad chi yw'r ceisydd neu un o'r ceiswyr (h.y. nid chi a atebodd gwestiwn 1.1), rhowch y manylion canlynol amdanoch eich hun:

Enw llawn: .....

Teitl: Mr/Mrs/Miss/Ms/Arall: .....

Dyddiad geni: .....

Oedran: ..... oed

3.2 A oes gennych bartner sy'n byw gyda chi? **Nodyn 49**

Oes ☐

Rhowch y manylion canlynol am eich partner: **Nodyn 50**

Enw llawn: .....

Teitl: Mr/Mrs/Miss/Ms/Arall .....

Dyddiad geni: .....

Oedran: ..... oed

Nac oes ☐